Mae'n debygol y bydd y canllawiau a ddatblygir gan ABPmer yn cynnwys:

- Naratif cyfyngiad amgylcheddol cymharol - bydd hyn yn disgrifio cyfyngiadau cymharol allweddol a nodwyd ar sail gwybodaeth bresennol, er enghraifft, lleoliad cynefinoedd sensitif i'w hosgoi;
- Cyngor ar fylchau data/ ofynion arolwg data tebygol ar gyfer datblygu ar lefel prosiect ym mhob maes adnoddau a nodwyd, neu grwpiau o feysydd adnoddau a nodwyd; gan gyfeirio at ganllawiau presennol ar ddulliau arolygu - byddai hyn yn seiliedig ar y dadansoddiad bwlch a gwblhawyd yn rhan gyntaf y prosiect SMMNR, gan ganolbwyntio ymhellach ar ofynion lefel prosiect;
- Byddai canllawiau generig ehangach hefyd yn cael eu cynnwys ar ofynion trwyddedu a chydysnio morol (bydd hyn yr un peth i raddau helaeth ar draws pob maes adnoddau a nodwyd) neu trwy gyfeirio at ganllawiau presennol (gan adeiladu eto ar allbynnau rhan gyntaf y prosiect SMMNR). Yn yr un modd, byddai'r mathau o asesiadau sy'n ofynnol fel rhan o'r drefn gydsynio hefyd yn cael eu hymgorffori; a
- Cyfeirio at ganllawiau mwy cyffredinol ar ofynion monitro ôl-gydsyniad.

2.3.2 Pecynnau tystiolaeth

Fel y cynnyrch terfynol i'r prosiect SMMNR, bydd datblygiad y pecynnau tystiolaeth hyn yn cael ei gynyddu i'r eithaf trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynnar ac yn gyson (gweler Adran 2.5: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid). Rhagwelir ar hyn o bryd y byddai'r pecynnau'n cael eu rhannu yn ôl sector (ynni ffrydiau llanw, ynni tonnau a dyframaeth) a'u rhannu ymhellach yn lleoliadau daearyddol eang sy'n berthnasol i bob sector.

Yn seiliedig ar y cyfleoedd a nodwyd ar gyfer adnoddau addas o ffrydiau llanw ac ynni tonnau (ardaloedd adnoddau a nodwyd), byddai hyn yn arwain at ganolbwyntio ar y lleoliadau daearyddol eang hynny sy'n berthnasol i'r sectorau hyn.

Gyda'r potensial ar gyfer datblygu dyframaeth ar hyd llawer o arfordir Cymru efallai y byddai'n well canolbwyntio ar ranbarthau daearyddol arwahanol e.e. gogledd, canolbarth, de. Y pecyn tystiolaeth ar gyfer rhanbarth penodol sy'n ymdrin â sawl maes o adnodd dyframaethu a nodwyd.

Fel y manylir uchod, bydd y pecynnau hyn yn darparu gwybodaeth am gyfyngiadau a chyfleoedd, arweiniad (gweler uchod), data gofodol a dolenni i ymchwil berthnasol a setiau data allweddol. Er mwyn galluogi trafodaethau cynnar gyda rhanddeiliaid perthnasol darperir templed drafft o becyn tystiolaeth yn Atodiad B.

Er mwyn caniatáu i'r pecynnau fod yn offer deinamig gyda chysylltiadau byw â gwybodaeth berthnasol arall, rhagwelir y byddent ar y we. Byddai hyn hefyd yn caniatáu diweddariadau rheolaidd yn unol â newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth, wrth fod yn ymwybodol o ddata, ymchwil a newidiadau newydd a pherthnasol mewn technoleg. Pan fydd newidiadau mewn mapio cyfyngiadau gofodol yn codi, dylid adlewyrchu'r rhain yn y pecynnau.

Byddai'r pecynnau'n cynnwys dolenni i amrywiaeth o wefannau a data, gan gynnwys Porth Cynllunio Morol Cymru, gwefannau Llywodraeth Cymru a Phorth Daear Lle, yn ogystal â chynhyrchion mwy arwahanol fel y geo-gronfa ddata a baratowyd yn ystod rhan gyntaf y prosiect SMMNR (Gweler ABPmer, 2019). Bydd catalogau data o'r fath yn helpu datblygwyr i nodi a dod o hyd i ddata a gwybodaeth sy'n berthnasol i'w maes diddordeb yn rhwydd.

2.4 Cyflawniadau

Bydd y pethau allweddol y gellir eu cyflawni yn cynnwys:

- Data cynefinoedd graddfa eang wedi gyfeirnodu'n geo sy'n cwmpasu ardal (oedd) arolwg wedi'u targedu;
- Cyfyngiadau a mapiau cyfleoedd sy'n ymdrin â phob un o'r gweithgareddau ffocws;
- Pecynnau tystiolaeth ar gyfer pob maes adnoddau a nodwyd, neu grwpiau o feysydd adnoddau a nodwyd sy'n cwmpasu pob un o'r gweithgareddau ffocws;
- Geo-gronfa ddata yn ymgorffori pob un o'r gweithgareddau ffocws ac yn darparu tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer pob maes adnoddau a nodwyd, neu grwpiau o feysydd adnoddau a nodwyd.

Bydd yr allbynnau'n cael eu cyflwyno ar ffurf adroddiad ysgrifenedig yn ymdrin â chasglu data, dadansoddi cyfyngiadau amgylcheddol, datblygu pecynnau tystiolaeth ac argymhellion i gefnogi a chynorthwyo datblygu cynaliadwy yn nyfroedd Cymru.

Bydd yr holl bethau y gellir eu cyflawni yn cael eu paratoi yn unol â safonau Llywodraeth Cymru a fersiwn derfynol yr adroddiad llawn a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg.

2.5 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i lywio cyflawniadau'r prosiect hwn. Cyflawnir hyn trwy amrywiaeth o fecanweithiau fel y crynhoir yn Nhabl 1. Yn ogystal â'r eitemau ffurfiol a nodwyd yn Nhabl 1, bydd ymgynghori mwy anffurfiol yn parhau trwy gydol y prosiect

Tabl 1. Digwyddiadau a chyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol

Digwyddiad	Rhaglen Amllder	Amcan
Adrodd ar gynnydd	Misol	Monitro cynnydd a risgiau prosiect.
Cyfarfod sefydlu gyda Llywodraeth Cymru/CNC	20 Mawrth 2019	Cyfarfod cychwyn prosiect. Trosolwg o'r prosiect sy'n ymwneud â phrosiectau cysylltiedig SMMNR, anghenion data, dadansoddi cyfyngiadau, casglu data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
Cyfarfodydd adolygu interim gyda Llywodraeth Cymru/CNC	Chwarterol (cyfarfod nesaf i'w gynnal Mehefin 2019)	Monitro cynnydd a risgiau prosiect. Mewnbwn parhaus i siapio cyflawniadau prosiect.
Cylchlythyr Cynllunio Morol	Parhaus. Manylion penodol SMMNR yn Rhifyn 7 (29 Mai 2019)	Cyflwyno a chrynhoi manylion SMMNR. Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.
Cynhadledd Ynni Morol Cymru	Ebrill 2019	Cyflwyno manylion y prosiect SMMNR a cheisio mewnbwn cychwynnol pellach gan rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â phrosiect SMMNR ac ymarfer casglu data.
Fforwm blynyddol Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr	Mai 2019	Cyflwyno manylion y prosiect SMMNR a cheisio mewnbwn cychwynnol pellach gan rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â phrosiect SMMNR.

Digwyddiad	Rhaglen Amllder	Amcan
		Ennill mewnwediadau pellach i ddyheadau cyfredol, ffactorau sy'n cyfyngu a chyfleoedd.
Ceisiadau data penodol a gyhoeddwyd / a ddilynwyd	Ebrill/Mai 2019	Coladu ffynonellau data / gwybodaeth i lywio mapio cyfyngiadau cynnar ac ymdrech arolwg targed.
Ymgynghoriad cynnar ag arweinwyr technegol CNC	Mawrth/Ebril/Mai 2019	Cytuno a darparu setiau data allweddol, fel y'u hystyrir gan gynghorwyr technegol / rheoleiddwyr, i lywio mapio cyfyngiadau cynnar ac arolygon benthig.
Ymgynghoriad parhaus ag arweinwyr technegol CNC	Mehefin-Awst 2019	Trafod a chytuno ar setiau data allweddol i lywio dadansoddiad cyfyngiadau amgylcheddol.
Gweithdy cyfyngiadau amgylcheddol	23 Gorffennaf 2019	Gweithdy CNC un diwrnod i drafod methodoleg a haenau data gofodol allweddol ar gyfer cyfyngiadau
Cyfarfod dull integredig (dadansoddiad methodoleg a cyfyngiadau)	Awst/Medi 2019	Trafod synthesis o waith cyfyngiadau gorgyffwrdd rhwng Cefas a chontractwr llwyddiannus ar gyfer pecyn gwaith methodoleg cyfyngiadau GIS
Cyfarfod panel arbenigol	Yn gynnar ym Medi 2019 (i'w gadarnhau)	Yn benodol i drafod gwaith dadansoddi cyfyngiadau ac amlinelliad cychwynnol o becynnau tystiolaeth
Cyfarfod SRG	04 Medi 2019	Cyfleu cynnydd SMMNR. Trafod gwaith dadansoddi cyfyngiadau ac amlinelliad cychwynnol o becynnau tystiolaeth
Cynhadledd Tystiolaeth yr Amgylchedd 2019	17-19 Medi 2019	Cyflwyno gwaith ar SMMNR
Cyfarfod Grŵp Materion Cyffredin Dyframaethu	Hydref 2019 (i'w gadarnhau)	Ennill mewnwediadau pellach i ddyheadau cyfredol, ffactorau sy'n cyfyngu a chyfleoedd.
Canolfan Pysgod Cregyn Bangor 2019	Gaeaf 2019 (dyddiadau i'w cadarnhau)	Cyfathrebu gwaith SMMNR. Ennill mewnwediadau pellach i ddyheadau cyfredol, ffactorau sy'n cyfyngu a chyfleoedd i'r sector hwn.
Cynhadledd MEW 2020	Gwanwyn 2020	Cyfathrebu gwaith SMMNR. Ennill mewnwediadau pellach i ddyheadau cyfredol, ffactorau sy'n cyfyngu a chyfleoedd i'r sector hwn.
Digwyddiad (au) lledaenu gwybodaeth â rhanddeiliaid	Gorffennaf 2020	Gweithdy(gweithdai)/cyfarfod(ydd) yng Nghymru i rannu allbynnau a siapio cyflawniadau terfynol h.y. pecynnau tystiolaeth ac arweiniad.

Yn gynnar yn 2019, cyflwynwyd y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol o ran gyntaf y prosiect SMMNR i randdeiliaid. Ers dyfarnu rhan nesaf y prosiect, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda CNC a Llywodraeth Cymru i arwain hynt y gwaith.

2.5.1 Cyfarfod sefydlu a chasglu data

Yn y cyfarfod sefydlu (20 Mawrth 2019) cydnabuwyd y byddai angen cwblhau gwaith arolwg i lywio casglu data ar nodweddion benthig yn ystod haf 2019 er mwyn cwrdd â therfynau amser y prosiect yn realistig. Yn y cyfarfod sefydlu cytunwyd gyda CNC a Llywodraeth Cymru y dylai'r gwaith arolygu ganolbwyntio ar ddilysu presenoldeb a maint nodweddion riff, a gwahaniaethu nodweddion cynefin Adran 7. Gan y bydd presenoldeb nodweddion o'r fath yn debygol o gynyddu'r risg cydsynio ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau ffocws, bydd dilysu neu nodi'u presenoldeb a'u maint yn cyfrannu at y gwaith dadansoddi cyfyngiadau manylach wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.

Er mwyn llywio a chyfarwyddo'r gwaith arolwg benthig o fewn yr amserlenni, roedd angen ystyried cyfyngiadau a chyfluoedd lefel uchel i'r arolygon yn gynnar yn y rhaglen. Nodwyd setiau data allweddol rhwng ABPmer a CNC a fyddai'n caniatáu pennu lleoliadau casglu data o fewn dyfroedd Cymru (e-byst gan Lee Murray (25 Mawrth 2019) a Kirsten Ramsay (01 Ebrill 2019)). Casglwyd y rhan fwyaf o'r setiau data fel rhan o gam cyntaf y prosiect SMMNR ac roeddent yn cynnwys:

- Safleoedd dynodedig;
- Nodweddion Erthygl 17;
- Cynefinoedd riff;
- Adnoddau ffrydiau llanw;;
- Adnoddau tonnau; a
- Ffiniau drafft SRA.

Ategwyd y setiau data hyn gan CNC gyda haenau data ychwanegol, megis maint y data acwstig o fewn dyfroedd Cymru a'r data diweddaraf ar faint riff (10 Ebrill 2019). Yn ychwanegol at y rhain, darparwyd haenau yn dangos maint gwaith arolwg amlbelydr Seacams yn nyfroedd Cymru gan Brifysgol Bangor (03 Mai 2019).

Roedd defnyddio'r setiau data hyn wrth gynllunio'r gwaith arolwg yn caniatáu targedu lleoliadau arolwg (gweler Atodiad A). Yn nodweddiadol, roedd lleoliadau'r arolwg yn canolbwyntio ar ardaloedd o adnoddau addas a oedd yn gorgyffwrdd â safleoedd dynodedig, gan osgoi ardaloedd o gynefin riff hysbys ac arolygon amlbelydr hanesyddol neu gynlluniedig. Mae presenoldeb cynefin riff yn cynrychioli cyfyngiad lefel uchel i ddatblygiad gweithgareddau ffocws ac felly'r gwaith arolygu. Yna darparwyd memo technegol yn cwmpasu'r gwaith mapio cynnar i CNC a Llywodraeth Cymru (17 Mai 2019) cyn cael ei drafod a chytuno arno ddiwedd mis Mai (23 Mai 2019) (gweler Atodiad A). Canlyniad allweddol oedd y cytundeb y dylai'r gwaith arolygu ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol eang oddi ar arfordir gogledd-orllewin Sir Benfro ac i'r gorllewin o Ynys Môn.

Roedd y gofyniad i gynnal gweithgareddau arolwg yn haf 2019 yn atal ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid manwl cyn dechrau ar y gwaith arolygu. Fodd bynnag, cafodd manylion pellach am y prosiect SMMNR, gan gynnwys y gwaith casglu arolwg arfaethedig, ei gyfleu i rhanddeiliaid yng nghynhadledd Ynni Morol Cymru (04 Ebrill 2019) a fforwm blynyddol Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr (14 Mai 2019), gydag adborth yn cael ei wahodd gan rhanddeiliaid. Yn yr un modd, darparodd Rhifyn 7 o gylchlythyr cynllunio morol Cymru (Mai 2019) ddiweddariadau ar gam nesaf y prosiect SMMNR, gan wahodd rhanddeiliaid i ymateb gydag unrhyw ymholiadau.

2.5.2 Dadansoddi cyfyngiadau, pecynnau tystiolaeth a chydweithio prosiect

Gan gydnabod y tasgau dadansoddi cyfyngiadau gorgyffwrdd sy'n ofynnol ar gyfer pecynnau prosiect SMMNR cysylltiedig (gweler Adran 2.2.2: Dull), cynhelir cyfarfodydd gyda'r contractwyr a'r rhanddeiliaid perthnasol i ddarparu dull integredig o'r gwaith a chydabod adborth (gweler Tabl 1).

Trafodwyd y dull o ymdrin â'r fethodoleg cyfyngiadau amgylcheddol rhwng ABPmer a Cefas, gyda chytundeb y byddai ABPmer yn arwain ar ddatblygiad y fethodoleg (25 Mehefin 2019). Yn y cyfarfod chwarterol gyda CNC a Llywodraeth Cymru a ddilynodd (25 Mehefin 2019), trefnwyd gweithdy cyfyngiadau amgylcheddol (23 Gorffennaf 2019). Defnyddir mewnbwn arbenigwyr technegol CNC i gytuno ar y dull cyffredinol (e.e. rhagdybiaethau) ac amrywiol gamau o fewn y fethodoleg dadansoddi cyfyngiadau (e.e. llwybrau effaith; sensitifrwydd nodwedd; setiau data allweddol; sgorio). Er na chytunwyd ar setiau data allweddol eto, deellir bod setiau data sy'n cwmpasu cynefinoedd Atodiad I a nodweddion Adran 7 yn y broses o gael eu diweddarau gan CNC.

Defnyddir paneli arbenigol i ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol ar y gwaith cyfyngiadau amgylcheddol a datblygu'r pecynnau tystiolaeth (gweler isod). Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y paneli arbenigol hyn yn cael eu sefydlu erbyn dechrau mis Medi 2019, gan ganiatáu adborth ar y gwaith cyfyngiadau ac amlinelliad cychwynnol o becynnau tystiolaeth. Gofynnir am adborth pellach yn ystod y cyfarfod SRG (04 Medi 2019) lle bydd cynnydd cyffredinol y prosiect SMMNR yn cael ei gyfathrebu.

2.5.3 Ymgysylltiad ehangach

Fel y soniwyd uchod, cafwyd ymgysylltiad pellach yng nghynhadledd Ynni Morol Cymru (Ebrill 2019) a fforwm blynyddol Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr (Mai 2019) i amlinellu rhan nesaf y prosiect SMMNR gyda rhanddeiliaid allweddol.

Bydd ABPmer yn mynychu cynhadledd Tystiolaeth Amgylcheddol 2019 sydd ar ddod (17-19 Medi) ac eisoes wedi cyflwyno crynodeb, yn ymdrin â phrosiect SMMNR, pwnc wedi'i dargedu'n benodol sef 'Defnydd Cynaliadwy o'r Amgylchedd Morol' ar yr ail ddiwrnod. Mae presenoldeb hefyd wedi'i gynllunio ar gyfer Canolfan Pysgod Cregyn Bangor 2019 (dyddiadau i'w cadarnhau) a chynhadledd MEW 2020.

Bydd cylchlythyr cynllunio morol Cymru yn parhau i ddiweddarau rhanddeiliaid ar hynt y prosiect SMMNR. Rhagwelir hefyd, trwy Grŵp Gweithredu a Chynghori Morol Cymru (WMAAG) y gellir cyfleu cynnydd ar y SMMNR i'w haelodau. Mae potensial hefyd i hyrwyddo tasgau ac allbynnau penodol o'r gwaith trwy gylchlythyr MEDIN.

2.6 Rhaglen

Amlinellir y rhaglen fanwl ar gyfer cwblhau ail ran y prosiect SMMNR yn Nhabl 2. Mae'r rhaglen yn cynnwys elfen o hyblygrwydd, yn enwedig o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a dyddiadau cyfarfodydd/gweithdai, gan y bydd y rhain yn dibynnu ar argaeledd trydydd parti.

Gwnaed lwfansau hefyd ar gyfer oedi posibl i weithgaredd arolygu o ganlyniad i dywydd gwael; fodd bynnag, dylid cwblhau'r holl waith maes erbyn diwedd mis Medi 2019, a bydd prosesu, dadansoddi a dehongli'r holl ddata a gasglwyd wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2020.

2.7 Risgiau

Cydnabyddir sawl risg i'r prosiect a'r rhaglen ynghyd â mesurau i liniaru eu tebygolrwydd a'u heffaith.

Cynlluniwyd yr arolygon (amlbelydr a chwymp-fideo) i gyd-fynd â'r cyfnodau tywydd blynyddol mwyaf ffafriol, gyda gwaith ar hyn o bryd yn cael ei gynnig ar gyfer diwedd mis Gorffennaf ac Awst 2019. Mae natur y gwaith amlbelydr yn gofyn am ymrwymiad i ddyddiad cychwyn penodol. Mewn cyferbyniad, bydd rhywfaint o hyblygrwydd i'r arolwg cwyp-fideo (*drop-down video*) yn caniatáu i'r arolwg gychwyn, a defnyddio syrfewyr, pan geir cyfnod addas o ran tywydd.

Crëwyd amcangyfrifon o'r ystod debygol o amser tywydd gwael (WDT) a allai ddigwydd yn ystod yr arolwg amlbelydr yn y lleoliadau a ddewiswyd gan ddefnyddio Gwasanaeth ABPmer Weather Down Time Express (WDTX) (<https://www.seastates.net/weather-downtime-express/>). Mae'r gwasanaeth yn dychwelyd ystadegau manwl ynghylch yr ystod realistig o WDT posib a allai ddigwydd wrth geisio cynnal y prosiect yn y dyfodol, yn seiliedig ar ystadegau'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

O ran amseriad cyffredinol, rhagwelodd y gwasanaeth fod y cyfnod rhwng Mai ac Awst yn fisoedd gwell ar y cyfan i gyflawni'r gwaith, gyda mis Gorffennaf yn gyffredinol y gorau o'r misoedd hyn. Mae amcangyfrifon WDT yn cynyddu'n gyflym ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Medi ymlaen. Mae mwy o debygolrwydd y bydd tywydd gwael yn digwydd yn ystod arolwg Sir Benfro oherwydd y lleoliad mwy agored ac uchder tonnau uwch yn gyffredinol.

Gan dybio y gall y llong ymdopi ag uchder tonnau gweithio o 1.2 m os yw cyfeiriad cymharol y môr a thraciau'r arolwg yn caniatáu, mae disgwyl rhesymol i'r WDT canlynol ar gyfer dyddiad cychwyn ym mis Gorffennaf:

- Siawns 30% o ddim WDT, siawns 40% o 1-3 diwrnod, siawns 20% o 4-7 diwrnod, siawns 9% o 7-15 diwrnod a siawns 1% o 15-30- diwrnod.

Trafodwyd cyfradd ddyddiol ychydig yn is ar gyfer y llong arolwg amlbelydr ar gyfer diwrnodau tywydd gwael. Pe rhagwelir amodau tywydd anaddas cyn i'r arolwg gychwyn, ni fydd staff yn cael eu defnyddio nes bod ffenestr dywydd addas ar gael. Bydd arweinydd yr arolwg yn cyfathrebu'n barhaus â chapten y llong arolygu er mwyn caniatáu i gynllun yr arolwg esblygu yn ôl amodau'r môr.

Er nad yw natur alltraeth ac agored lleoliadau'r arolwg yn darparu llawer o gyfle i gysgodi rhag unrhyw wyntoedd, bydd syrfewyr yn ceisio gwneud gwaith o fewn yr ardaloedd mwyaf agored, gan ystyried effeithiau cyfeiriad a chyflymder y llanw, yn yr amodau tywydd gorau. Mae hyn yn caniatáu cynnal yr arolwg mewn dull addasol, lle bydd ardaloedd sy'n rhoi amodau gwaith ychydig yn well yn cael eu harolygu wrth i'r tywydd ddirywio.

O dan amodau da dros rannau gwastad o wely'r môr, gall lled ystod yr amlbelydr gyflawni pum gwaith dyfnder y dŵr. Fodd bynnag, lle mae gan wely'r môr ymdoniadau neu glogfeini sylweddol, bydd angen lleihau'r bylchau llinell er mwyn sicrhau sylw llawn. Rhagwelir y bydd gwely'r môr yn yr ardaloedd chwilio eang yn gymysgedd o is-haenau anwastad bras gydag ambell i ardal o frigiadau creigiog. Felly, mae cynllun yr arolwg ar gyfer y gwaith hwn (gweler Atodiad A) wedi tybio bod lled ystod yr amlbelydr deirgwaith dyfnder y dŵr yn geidwadol ac felly'n gyraeddadwy o dan amodau tywydd addas.

Mae sawl darn arall o waith cysylltiedig i'r prosiect SMMNR sy'n gorgyffwrdd; yn benodol, y darnau hynny o waith sy'n ymdrin â methodoleg cyfyngiadau a dadansoddiadau h.y. 'dadansoddiad cyfyngiadau amgylcheddol ar gyfer y sector agregau' a 'methodoleg mapio a chyfyngu GIS'. Mae cynhyrchu pecynnau tystiolaeth hefyd yn ofyniad ar gyfer darnau eraill o waith sy'n gysylltiedig â SMMNR.

Gan gydnabod y gwahanol amserlenni ar gyfer y prosiectau hyn a'r allbynnau tebyg neu gyfatebol sy'n ofynnol, mae'n bwysig bod sianeli cyfathrebu clir yn cael eu sefydlu gyda'r contractwyr eraill (gweler Adran 2.2.2 a 2.5.2). Fel cam cyntaf i reoli'r risg, mae ABPmer wedi cyflwyno datblygiad y fethodoleg cyfyngiadau i alinio â phecynnau SMMNR eraill (gweler Adran 2.2.2) gyda'r gwaith hwn yn dechrau ddiwedd mis Mehefin (gweler Tabl 2). Gwnaed darpariaeth hefyd ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd (gweler Tabl 1 a Thabl 2). Er nad yw'r gwaith 'methodoleg mapio a chyfyngu GIS' wedi'i ddyfarnu eto, cynhaliwyd cyfarfod cychwynol gyda'r contractwr 'dadansoddiad cyfyngiadau amgylcheddol ar gyfer y sector agregau' (Cefas) ar 25 Mehefin 2019 (gweler Adran 2.5.2) i drafod datblygiad y fethodoleg cyfyngiadau amgylcheddol.

Un risg allweddol yng nghramau olaf y prosiect fydd cael rhanddeiliaid i ddefnyddio'r cynlluniau mapio a thystiolaeth. Bydd ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid perthnasol a phaneli arbenigol yn rheoli'r risg hon trwy ganiatáu cyfleoedd i drafod yr allbynnau allweddol yn fuan yn eu datblygiad. Yn y rhaglen, darperir ar gyfer cyfarfodydd gyda phanel arbenigol a'r SRG ym mis Medi (gweler Tabl 2), pryd y gellir trafod allbynnau'r gweithdy cyfyngiadau amgylcheddol a'r fethodoleg sy'n datblygu. Bydd y cyfarfodydd cynnar hyn hefyd yn rhoi cyfle cychwynnol i drafod cynnwys, arddull a fformat y pecynnau tystiolaeth.

Rhagwelir y bydd cyfieithu'r pethau y gellir eu cyflawni'n derfynol yn cymryd hyd at ddau fis; fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar nifer y cyflawniadau terfynol.

Tabl 2. Rhaglen

Tasg	2019											2020										
	Chwef	Mawrth	Ebrill	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwef	Mawrth	Ebrill	Mai	Meh	Jul	Aug	Sep	Oct	Nov
Dyfarnu contract	11-Chwef																					
Dyddiad dechrau'r contract	26- Chwef																					
Cyfarfod cychwynnol		20-Maw																				
Adroddiad cychwynnol			01-Ebr																			
Adroddiad cynnydd misol																						
Datblygu cynllun gwaith																						
Mynychu cynhadledd MEW			04-Ebr																			
Mapio cyfyngiadau cynnar i lywio'r arolwg																						
Mynychu cynhadledd SAGB				14-Mai																		
Cyfarfod/cytundeb ar leoliadau'r arolwg (CNC a LIC)				23-Mai																		
Cynllun gwaith manwl (drafft)					14-Meh																	
Cynllun gwaith manwl (terfynol)					15-Gorff																	
Cyfarfod sefydlu methodoleg cyfyngiadau gyda Cefas					25-Meh																	
Cyfarfod adolygu interim yn Llundain					25-Gorff																	
Ymgysylltu anffurfiol parhaus â rhanddeiliaid																						
Cynllunio casglu datagwaith maes (arolygon amlbelydr ac ecoleg)																						
Datblygu methodoleg cyfyngiadau (cydweithrediad â Cefas)																						
Gweithdy cyfyngiadau amgylcheddol (CNC)						23-Gorff																
Cyfarfod dull cyfyngiadau – contractor metholedog llwyddiannus a Cefas									Cyn ffôn													
Prosesu data (ambelydr)																						
Cyfarfod panel arbenigol								w/d 2-Medi														
Cyfarfodydd cynllunio morol SRG chwarterol								4-Medi														
Cynhadledd Tystiolaeth Amgylcheddol (Abertawe)								17-19 - Medi														
Cyfarfod adolygu interim (Bangor/Llundain)								w/d 2-Medi		w/d 16-Rhag		w/d 16-Maw		w/d 15-Meh								
Dadansoddi a dehongli data																						
Mapiau cynefinoedd lefel eang																						
Adroddiad arolwg											17-Ion											
Mapio cyfyngiadau a chyfleoedd																						
Argymhellion ynghylch defnyddio adnoddau																						
Canllawiau SRA																						
Pecynnau tystiolaeth																						
Mynychu cynhadledd MEW																						
Diweddariad ar ddatblygiad geo-gronfa ddata																						
Gweithdy rhanddeiliaid – rhannu gwybodaeth/agymhellion																						
Adroddiad terfynol																						
Cyfarfod terfynol ym Mangor																				w/c 14-Sep		
Cyfieithu i'r Gymraeg																						
Diwedd y contract																						

3 Cyfeiriadau

ABPmer, (2019). Sustainable Management of Marine Natural Resources, Work Package 1, ABPmer Report No. R.3065. A report produced by ABPmer for Welsh Government, February 2019.

ABPmer SEASTATES: <https://www.seastates.net/weather-downtime-express/>

HM Government (2011). UK Marine Policy Statement. PB13654.

IHO (2000). Transfer Standard for Digital Hydrographic Data, International Hydrographic Organization Publication S-57, Edition 3.1 - November 2000

IHO (2008). Standards for Hydrographic Surveys, International Hydrographic Organization Publication S-44, Edition 5 - February 2008

ISO 9001:2015 Quality management systems -- Requirements. International Organization for Standardization.

MEDIN (2016). MEDIN data guideline for video surveys v4.2. <https://www.medin.org.uk/data-standards/medin-data-guidelines>

Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) (2018). Benthic habitat assessment guidance for marine developments and activities. Guidance for undertaking benthic marine habitat survey and monitoring Guidance for developers and NRW staff. Guidance note: GN030.

Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) (2019). Benthic habitat assessment guidance for marine developments and activities. Over-arching principles and methods for benthic marine habitat survey and monitoring in the context of ecological impact assessment Guidance for developers and NRW staff. Guidance note: GN030-intro.

Saunders, G., Bedford, G.S., Trendall, J.R., and Sotheran, I. (2011). Guidance on survey and monitoring in relation to marine renewables deployments in Scotland. Volume 5. Benthic Habitats. Unpublished draft report to Scottish Natural Heritage and Marine Scotland (Chapter 9)

Ware, S.J., Kenny, A., Curtis, M., Barrio Frojan, C., Cooper, K., Reach, I., Bussell, J., Service, M., Boyd, A., Sotheran, I., Egerton, J., Seiderer, L.J., Pearce, B., (2011). Guidelines for the Conduct of Benthic Studies at Marine Aggregate Extraction Sites (2nd Edition)

4 Talfyriadau/Acronymau




AIS	Automatic identification system / System adnabod awtomatig
Cefas	Centre for Environment, Fisheries and Aquaculture Science / Canolfan ar gyfer Gwyddor yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
DAS	Design and Access Statement / Datganiad Dylunio a Mynediad
DDV	Drop-Down Video / Cwmp-Fideo
Defra	Department for Environment, Food and Rural Affairs / Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
EIA	Environmental Impact Assessment / Asesiad Effaith Amgylcheddol
EMFF	European Maritime and Fisheries Fund / Cronfa Forwrol a Physgodfeydd Ewropeaidd
EN	Energy / Ynni
EU	European Union / Undeb Ewropeaidd
GES	Good Environmental Status / Statws Amgylcheddol Da
GIS	Geographic Information System / System Gwybodaeth Ddaearyddol
HLMO	High Level Marine Objectives / Amcanion Morol Lefel Uchel
HM	Her Majesty's / Ei Mawrhydi
HRA	Habitat Regulations Assessment / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
IHO	International Hydrographic Organization / Sefydliad Hydrograffig Rhyngwladol
IMP	Integrated Maritime Policy / Polisi Morwrol Integredig
ISO	International Organization for Standardization / Sefydliad Safoni Rhyngwladol
LPA	Local Planning Authority / Awdurdod Cynllunio Lleol
MCAA	Marine and Coastal Access Act / Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol
MEDIN	Marine Environmental Data and Information Network / Rhwydwaith Data a Gwybodaeth Amgylcheddol Morol
MEECE	Marine Energy Engineering Centre of Excellence / Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni Morol
MESH	Mapping European Seabed Habitats / Mapio Cynefinoedd Môr y Ewropeaidd
MEW	Marine Energy Wales / Ynni Morol Cymru
MPA	Marine Protected Areas / Ardaloedd Morol Gwarchoddedig
MPS	Marine Policy Statement / Datganiad Polisi Morol
MSP	Maritime Spatial Planning / Cynllunio Gofodol Morwrol
NRP	Natural Resources Policy / Polisi Adnoddau Naturiol
NRW	Natural Resources Wales / Cyfoeth Naturiol Cymru
NRW-PS	NRW Permitting Service / Gwasanaeth Caniatáu CNC
OBIS	Ocean Biogeographic Information System / System Gwybodaeth Biogeograffig Cefnforoedd
ORJIP	Offshore Wind, Offshore Renewable Joint Industry Project / Cyd-brosiect Diwydiant Adnewyddadwy Ar y Môr
SAGB	Shellfish Association of Great Britain / Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr
SEA	Strategic Environmental Assessment / Asesiad Amgylcheddol Strategol
SMMNR	Sustainable Management of Marine Natural Resources / Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr
SRA	Strategic Resource Areas / Ardaloedd Adnoddau Strategol
SRG	Scientific Review Group / Grŵp Adolygu Gwyddonol
TAN	Technical Advice Note / Nodyn Cyngor Technegol
tbc	To Be Confirmed / I'w Gadarnhau
TCE	The Crown Estate / Ystâd y Goron
UK	United Kingdom / Y Deyrnas Unedig
WBFGE	Well-being of Future Generations / Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

WDT	Weather Down Time / Amser Tywydd Drwg
WDTX	Weather Down Time Express
WFD	Water Framework Directive / Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
WG	Welsh Government / Llywodraeth Cymru
WGS84	World Geodetic System (1984)
WMAAG	Wales Marine Action and Advisory Group / Grŵp Gweithredu a Chynghori Morol Cymru
WMPP	Wales Marine Planning Portal / Porth Cynllunio Morol Cymru
WNMP CMCC	Welsh National Marine Plan / Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Defnyddir pwyntiau/cyfarwyddiadau cardinal oni nodir yn wahanol.

Defnyddir unedau SI oni nodir yn wahanol.

Atodiadau



Innovative Thinking - Sustainable Solutions

A Cyfyngiadau a Chyfleoedd Cynnar

Er mwyn ysgogi trafodaeth sy'n berthnasol i ddewis ardaloedd arolwg addas, darparwyd memo technegol i CNC a Llywodraeth Cymru (17 Mai 2019). Trafodwyd cynnwys y ddogfen hon ar 23 Mai 2019 rhwng Llywodraeth Cymru; CNC ac ABPmer. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud gwaith arolygu oddi ar arfordir gorllewinol Ynys Môn ac yn Sir Benfro.

**Memo Technegol (17 Mai 2019):
Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr: Pecyn Gwaith 2**

1. Cyflwyniad

Mae cynllunio gofodol morol effeithiol yn gofyn am dystiolaeth o ansawdd da y gellir ei defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Er mwyn helpu i fodloni'r gofyniad hwn, mae'r prosiect 'Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr' (SMMNR), a ariennir gan Gronfa Forwrol a Physgodfeydd Ewrop a Llywodraeth Cymru, yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth amgylcheddol mewn perthynas ag ynni llif llanw, ynni tonnau ac adnoddau dyframaethu yn ardal forol Cymru. Yn benodol, mae'r prosiect yn archwilio sut y gall defnyddio'r adnoddau hyn effeithio ar ardaloedd morol gwarchoddedig (MPA) a rhywogaethau a chynefinoedd sensitif eraill, a nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Bwriad y prosiect SMMNR yw cynyddu dealltwriaeth o'r amgylchedd morol a datblygu cynlluniau sy'n darparu penodoldeb a data lleol digonol y gellir deall a dangos buddion cynllunio morol yn eu herbyn. Bydd y prosiect yn gwneud hyn trwy ystyried setiau data perthnasol sydd ar gael, dadansoddi a dehongli data biolegol, cemegol a chorfforol, yn ogystal â chasglu tystiolaeth newydd sy'n ymwneud yn benodol â'r gweithgareddau ffocws a meysydd adnoddau addas.

Felly, bydd y prosiect yn mynd i'r afael â bylchau gwybodaeth allweddol mewn cynllunio morol megis gallu cario (h.y. terfynau amgylcheddol) ardaloedd adnoddau a nodwyd ar gyfer y gweithgaredd a fwriadwyd ac ardaloedd penodol o sensitifrwydd neu gyfle penodol ar raddfa leol. Pwynt olaf y prosiect fydd cynhyrchu pecynnau tystiolaeth sy'n berthnasol i feysydd adnoddau sy'n gysylltiedig â phob un o'r gweithgareddau. Bydd y pecynnau hyn yn darparu gwybodaeth am gyfyngiadau a chyfleoedd, arweiniad lleoliadol, data gofodol a dolenni i ymchwil perthnasol. Bydd ymgynghori â rhanddeiliaid yn helpu i lywio'r fformat a'r arweiniad yn y pecynnau hyn i sicrhau bod eu budd yn cael ei gynyddu i'r eithaf.

Mae gwaith wedi'i gwblhau i goladu ac asesu ansawdd dros 420 o setiau data sy'n ymdrin â data ffisegol, cemegol, biolegol ac amgylchedd dynol sy'n berthnasol i ynni ffrydiau llanw, ynni tonnau a gweithgareddau dyframaethu. Aseswyd ansawdd data yn erbyn priodoleddau gan gynnwys priodoldeb, methodoleg a chywirdeb. Ystyriwyd bod data yr aseswyd ei fod o ansawdd uchel gyda hyder uchel yn bwysig ar gyfer llywio cynllunio gofodol morol o ynni ffrydiau llanw, ynni tonnau a dyframaethu yn nyfroedd Cymru. Yn dilyn coladu ac adolygu data perthnasol, gwnaed argymhellion ar sut y gellid mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth a data, gan gynnwys trwy astudiaethau wedi'u targedu (ABPmer, 2019). Argymhelliad allweddol oedd casglu data benthig pellach a hwyluso datblygiad mapiau cynefinoedd benthig o ansawdd cyson ar draws ardaloedd adnoddau a nodwyd. Gellir defnyddio'r mapiau hyn wedyn i lywio canllawiau lleoliadol.

Paratowyd y memo technegol hwn gan ABPmer fel cam cychwynnol i'r gweithgareddau casglu data. Bydd dewis lleoliadau daearyddol addas ar gyfer gwaith arolygu benthig (ardaloedd chwilio eang) trwy flaenoriaethu gofynion tystiolaeth, yn caniatáu gwneud y mwyaf o ymdrechion yr arolwg o fewn rhaglen a chyllideb y prosiect.

Felly, mae'r memo hwn yn darparu gwybodaeth am y dadansoddiad cyfyngiadau cynnar a'r rhesymeg dros ddewis yr ardaloedd chwilio eang hyn. Darperir gwybodaeth hefyd am fethodoleg yr arolwg sy'n ystyried yn ymarferol pa ddata y gellir ei gasglu. Daw'r memo i ben gyda dadansoddiad o opsiynau arolygu posibl i'w trafod ymhellach. Bydd y data maes a gesglir gan yr opsiynau hyn yn mynd i'r afael â bylchau yn y setiau data benthig ffisegol a biolegol yn y rhanbarth(au) daearyddol o ddiddordeb, gan gydnabod sensitifrwydd nodweddion i'r pwysau o weithgareddau ffocws a chan lywio cynllunio gofodol.

2. Cyfyngiadau a chyfloedd cynnar

Mae dewis meysydd chwilio eang ar gyfer yr ymarfer casglu data yn gofyn am resymeg gref trwy ystyried cyfyngiadau a chyfloedd amgylcheddol y gellir eu hadnabod yn glir. Rhoddwyd blaenoriaeth gynnar yn gyntaf i feysydd chwilio eang y byddai modd manteisio i'r eithaf ar waith casglu data ynddynt h.y y meysydd hynny lle gellid casglu data a allai fod yn berthnasol i weithgareddau lluosog, gyda chydabyddiaeth i feysydd adnoddau a nodwyd. Ar yr adeg hon, defnyddiwyd yr Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRA) drafft fel y'u cyflwynir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) (gweler Ffigur 1) fel sylfaen ar gyfer yr ardaloedd chwilio ond gan gydnabod mai dim ond dangosol yw'r ardaloedd hyn. Er mwyn rhesymoli'r meysydd chwilio eang ymhellach, defnyddiwyd proses fesul cam a oedd i ddechrau yn ystyried cyfyngiadau amgylcheddol lefel uchel y gellir eu hadnabod yn hawdd o fewn ardaloedd arolwg eang. Yna lleihawyd y meysydd hyn ymhellach o ran maint ar ôl dewis y nodweddion chwilio allweddol, methodoleg yr arolwg dilynol ac ystyried argaeledd data (gweler Ffigur 1).


Blaenoriaethu cynnar

Er mwyn cynyddu gwerth y dystiolaeth a gafwyd i'r eithaf, rhoddwyd blaenoriaeth i feysydd chwilio eang a chyraeddadwy a oedd yn gorgyffwrdd ag adnodd a allai fod yn addas ar gyfer un neu fwy o weithgareddau ffocws. Lle'r oedd lle rhesymol i ardal chwilio gwmpasu mwy nag un gweithgaredd ffocws, blaenoriaethwyd y meysydd hyn. Defnyddiwyd lleoliad yr SRAau drafft fel man cychwyn ar gyfer y cam hwn; fodd bynnag, cydnabuwyd na fyddai ffiniau'r SRAau drafft yn cyfyngu ar faint yr arolwg. Rhoddwyd cydnabyddiaeth hefyd i Ynys Enlli, sy'n cael ei chydabod fel ardal sy'n cynnig adnoddau ynni ffrydiau llanw da.

Mae adnoddau ynni llanw ar eu gorau ar gyrion de-orllewinol dyfroedd tiriogaethol Cymru, gyda'r ardaloedd gorau gryn dipyn ymhellach ar y môr na'r rhai a ystyriwyd i ddechrau ar gyfer y gweithgareddau ffocws eraill. Felly, yn dilyn y broses flaenoriaethu gychwynnol, cwtogwyd yr ardaloedd chwilio eang posibl i'r rhai sy'n dal adnoddau ynni ffrydiau llanw a dyframaethu'n rhesymol:

- Sir Benfro – oddi ar Benmaen Dewi ac o amgylch Ynys Dewi.
- Penrhyn Llŷn – o amgylch Ynys Enlli.
- Gogledd Ynys Môn – ar hyd arfordir gogledd Ynys Môn
- Gorllewin Ynys Môn – oddi ar arfordir gorllewin Ynys Môn

Mae'r holl ardaloedd hyn yn cynnwys adnodd ffrydiau llanw da, yn agos at neu'n agos at yr SRAau dyframaethu drafft a nodwyd yn y CCMC drafft.



Ffigur 1: Y broses fesul cam i nodi cyfyngiadau a chyfleoedd cynnar ar gyfer dewis safleoedd arolygu eang. Gwyrdd – blaenoriaethu cynnar; glas – rhesymoli ardal safle'r arolwg.

Cyfyngiadau amgylcheddol lefel uchel

Mae cyfran fawr o ddyfroedd Cymru yn cael eu cwmpasu gan safleoedd dynodedig Ewropeaidd (ACAau ac AGAau). Fel cam cyntaf i'r dadansoddiad cyfyngiadau cynnar, rhoddyd ystyriaeth i nifer y safleoedd dynodedig Ewropeaidd a oedd yn gorgyffwrdd â'r ardal chwilio eang a graddfa'r gorgyffwrdd lle digwyddodd hyn. Defnyddiwyd y gorgyffwrdd â SRAau ffrydiau llanw drafft fel man cychwyn ar gyfer y cam hwn; fodd bynnag, cydnabuwyd na fyddai ffiniau'r SRAau drafft yn cyfyngu ar faint yr arolwg.

Cydnabyddir na fyddai presenoldeb dau neu fwy o safleoedd dynodedig o reidrwydd yn atal datblygu unrhyw weithgaredd ffocws, gan fod hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar y nodweddion a gwmpasir gan y safleoedd hyn a'u sensitifrwyd i bwysau penodol. Fodd bynnag, at ddibenion y dadansoddiad lefel uchel hwn, tybiwyd bod mwy o botensial i risg cydsynio wrth i orgyffwrdd â safleoedd a nodweddion dynodedig gynyddu.

Lle'r oedd yn hawdd nodi cyfyngiadau amgylcheddol eraill, fel presenoldeb cynefinoedd Erthygl 17 (e.e. nodweddion riff), yna cydnabuwyd y rhain hefyd.

Gogledd Ynys Môn

Mae ardaloedd o adnoddau ffrydiau llanw da oddi ar arfordir gogledd Ynys Môn yn cael eu cwmpasu i raddau helaeth gan ACA Gogledd Môn Forol ac ACA Môr-wenoliaid Ynys Môn gydag ardal bwysig i forloi orffwys ar Ynysoedd y Moelrhoniaid. Mae'r SRA ffrydiau llanw drafft yn y lleoliad hwn wedi'i gwmpasu'n llwyr gan y ddau safle Ewropeaidd hyn. Cynefin riff Atodiad I yw wyneb llawer o'r SRA ffrydiau llanw drafft tra bod morlin Gogledd Ynys Môn yn rhan o Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE).

Gorllewin Ynys Môn

Mae ardaloedd o adnoddau ffrydiau llanw da oddi ar arfordir gorllewin Ynys Môn yn gorgyffwrdd ag ACA Gogledd Môn Forol ac AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn. Mae ardal gymharol fach o'r SRA ffrydiau llanw drafft yn y lleoliad hwn yn gorgyffwrdd â dau safle Ewropeaidd; fodd bynnag, mae ychydig llai na hanner y SRA ffrydiau llanw drafft yn gorgyffwrdd ag unrhyw safle Ewropeaidd. Mae clytiau o gynefin riff wedi'u lleoli yn yr SRA ffrydiau llanw drafft. Mae'r ardal chwilio eang hon yn cynnwys yr unig SRA ffrydiau llanw drafft nad yw'n cael ei gwmpasu'n llawn gan o leiaf un safle dynodedig.

Enlli

Mae'r ardal o amgylch Ynys Enlli wedi'i chwmpasu gan dri safle dynodedig Ewropeaidd: ACA Gorllewin Cymru Forol; ACA Pen Llyn a'r Sarnau ac AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli. Mae llawer o'r ardal hefyd wedi'i lleoli o fewn yr arfordir treftadaeth a ddynodwyd yn genedlaethol ac mae'n rhan o AHNE. Mae yna hefyd gynefin riff helaeth ledled yr ardal fel y nodwyd yn set ddata mapio cynefinoedd Erthygl 17.

Sir Benfro

Roedd yr argymhellion olaf yng ngham cyntaf y gwaith yn manylu ar nifer o gyfyngiadau amgylcheddol amlwg ar gyfer datblygu gweithgareddau ffocws o amgylch Ynys Dewi, a gwmpasir gan ACA Gorllewin Cymru Forol (a ddynodwyd ar gyfer llanhidydd yr harbwr), ACA Forol Sir Benfro (a ddynodwyd ar gyfer cynefinoedd Atodiad I gan gynnwys riffiau), Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ynys Dewi, SoDdGA Ynys Dewi a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (gweler ABPmer, 2019). Mae yna hefyd nifer o safleoedd gorffwys morloi bach yn yr ardal, tra bod y swnt hefyd yn nodwedd anarferol ynddo'i hun, gan mai dim ond dau swnt arall sydd yn nyfroedd Cymru. 'Riffiau' islanwol a 'chilfachau bas a baeau mawr' yw'r prif resymau dros ddynodi ACA Forol Sir Benfro ac mae data mapio cynefinoedd Erthygl 17 yn awgrymu bod llawer o wely'r môr o amgylch Swnt Dewi gyda



chynefin riff yn lawr iddo a bod yr ardal o Ynys Dewi tua'r tir mawr wedi'i gwmpasu gan nodwedd 'cilfachau bas a baeau mawr'.

Fodd bynnag, i'r gogledd o Swnt Dewi, oddi ar Benmaen Dewi, mae'r amgylchedd yn llai cyfyng yn ddaeryddol ond yn dal i fod yn ardal ffrydiau llanw cryf. Y tu hwnt i ran ogleddol ACA Forol Sir Benfro mae yna hefyd ardal fawr o'r SRA ffrydiau llanw drafft sydd ond yn gorgyffwrdd ag ACA Gorllewin Cymru Forol. Nid yw data mapio cynefinoedd yn nodi unrhyw gynefinoedd Erthygl 17 i'r gogledd o Benmaen Dewi, a chredir bod ehangder eang o gynefin gwaddod cymysg yn bresennol.

Dim ond yr ardaloedd chwilio eang yng Ngorllewin Ynys Môn a Sir Benfro oedd yn cynnwys parthau o wely'r môr ag adnodd llanw a nodwyd nad oeddent yn cael eu cwmpasu gan ddau neu fwy o safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Felly, o'r dadansoddiad cyfyngiad amgylcheddol lefel uchel hwn, lleihawyd yr ardaloedd chwilio eang posibl i ardal i'r gogledd o Benmaen Dewi oddi ar Sir Benfro, ac ardal i'r gorllewin o Ynys Môn.

Nodweddion chwilio

Mae presenoldeb rhai nodweddion benthig, fel cynefinoedd Atodiad I ac Adran 7, yn cynyddu'r risg cydsynio ar gyfer datblygiadau morol. Bydd pennu presenoldeb/absenoldeb y nodweddion hyn yn un o amcanion allweddol y gwaith arolygu benthig.

Nodweddir ardaloedd o adnoddau ffrydiau llanw a nodwyd gan amgylcheddau hynod egniol, a'r canlyniad yw cynefinoedd a ddiffinnir yn bennaf gan is-haen fras neu graig a sgwriwyd. Mae riffiau yn nodwedd Atodiad I o Gyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE, a gydnabyddir fel nodwedd o bwysigrwydd cadwraethol. Mae riffiau'n cwmpasu nodweddion creigiog, caregog a biogenig, y mae pob un ohonynt i'w cael yn nyfroedd Cymru. Ar lefel uchel, mae nodi presenoldeb/absenoldeb nodweddion 'riff' yn rhoi arwydd o gyfyngiad amgylcheddol allweddol ar gyfer datblygu'r gweithgareddau ffocws.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gwaith arolygu, ffocws allweddol y gwaith casglu data fydd nodi nodweddion riff sy'n caniatáu mwy o hyder o ran presenoldeb a maint. Fodd bynnag, er mwyn mireinio'r ardaloedd chwilio eang ymhellach lle mae hyder (fel y'i diffinnir gan fapio cynefinoedd CNC) ym mhresenoldeb nodweddion riff yn dda, bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu hosgoi, gan leihau ardal gyffredinol yr arolwg.

Methodoleg fras

Mae defnyddio ôl-wasgariadau amlbelydr yn ddull cyflym a dibynadwy ar gyfer nodweddu nodweddion benthig eang fel 'riff' pan ategir hynny â dilysu daearol. Bydd hyn yn caniatáu nodi presenoldeb/absenoldeb cynefin riff ac felly gellir mapio cynefinoedd eang gyda hyder uchel. Ar hyn o bryd, mae mapiau o gynefin riff Atodiad I yn nyfroedd Cymru yn cynnwys data riff hyder uchel (lle mae data arolwg ar gael i wirio'r cofnodion) a nodweddion riff posibl sy'n deillio o fodelu cynefinoedd.

Mae defnyddio ecoseinwyr amlbelydr yn golygu bod modd arolygu darnau eang o wely'r môr, gan roi arolwg cydraniad uchel o led sy'n cynyddu gyda dyfnder y dŵr. Gall dulliau o'r fath roi darlun llawn o wely'r môr. Mae'r offeryn wedi'i osod ar gwch ac felly gellir nodi lleoliad nodweddion gwely'r môr yn hynod o gywir. Yna defnyddir *drop down fideo* (DDV) i ddilysu presenoldeb nodwedion benthig (*benthic*). Gan fod y ffocws ar bennu presenoldeb/absenoldeb cynefin riff a nodi'r math o riff sy'n bresennol, ni ddefnyddir crafangau benthig.



Bydd lleoliadau arolwg amlbelydr yn osgoi rhannau o wely'r môr lle gwyddys bod arolwg amlbelydr eisoes wedi'i gynnal. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i waith dilysu DDV yn yr ardaloedd hyn os na chynhaliwyd dehongli a mapio benthig o'r amlbelydr. Er enghraifft, gallai data amlbelydr a gesglir o dan y Rhaglen Hydrograffeg Sifil gael ei gael ei ddilysu'n ymarferol os yw'n gorgyffwrdd ag ardaloedd chwilio eang.

I ddechrau, rhoddwyd syniad o natur a maint arolygu amlbelydr hanesyddol gan CNC. Cydnabuwyd hefyd waith arolwg amlbelydr a ddefnyddiwyd i lywio prosiectau masnachol (e.e. maint daearyddol y data a gasglwyd gan Seacams). Er nad yw data manwl o arolygon masnachol bob amser ar gael i'r cyhoedd, cyn belled â bod maint yr arolwg o'r gweithgaredd amlbelydr yn hysbys, yna gellir osgoi'r ardal a gwmpesir gan yr arolygon hyn.

Argaeledd data

Mae dwyseddau cymharol data ffisegol a biolegol â sgôr uchel ar draws dyfroedd Cymru wedi'u nodi, gan olygu bod modd tynnu sylw at fannau â symiau cymharol is o'r data sydd ar gael a data perthnasol i'r gweithgareddau ffocws (ABPmer, 2019).

Rhoddwyd mwy o flaenoriaeth arolygu i'r mannau hynny yr oedd y gwaith coladu data wedi dangos eu bod yn gymharol is o ran data ffisegol a biolegol â sgôr uchel.

Ardaloedd chwilio

Trwy ystyried y cyfyngiadau amgylcheddol lefel uchel, nodwyd dwy ardal chwilio eang, i'r gogledd a'r gogledd-orllewin o Benmaen Dewi (Sir Benfro) ac i'r gorllewin o Ynys Môn (Gorllewin Ynys Môn) (gweler Ffigur 2 a 3).

Sir Benfro

Wedi ystyried nodweddion chwilio, methodoleg ac argaeledd data, bydd ardal bosibl yr arolwg yn cwmpasu ardal o 95.3km², y mae oddeutu 75.2km² ohoni'n gorgyffwrdd â SRAau ffrydiau llanw drafft a 10.9km² yn gorgyffwrdd â SRAau dyframaethu drafft, fel yr amlinellir yn WP1.

Mae'r holl ardal arolwg bosibl yn dod o fewn ACA Gorllewin Cymru Forol (wedi'i dynodi ar gyfer llamhidydd yr harbwr) ac ACA Forol Sir Benfro (wedi'i dynodi ar gyfer cynefinoedd Atodiad I gan gynnwys riffiau); fodd bynnag, mae mapio cynefinoedd yn dangos gorgyffwrdd cyfyngedig â nodweddion riff Erthygl 17.

Gorllewin Ynys Môn

Wedi ystyried nodweddion chwilio, methodoleg ac argaeledd data, bydd ardal bosibl yr arolwg yn cwmpasu ardal o 83.9km², y mae oddeutu 61.7km² ohoni'n gorgyffwrdd â SRAau ffrydiau llanw drafft.

Mae cyfran o ardal yr arolwg (22.2km²) y tu allan i unrhyw safle dynodedig; fodd bynnag, mae mapio cynefinoedd yn dangos bod cynefin riff posibl yn nodweddu ychydig o ardal yr arolwg.

Rhesymoli

Cydnabyddir y byddai rhaglen arolwg â ffocws mewn un ardal chwilio eang yn darparu mwy o ddata addas o ansawdd uchel, o'i gymharu â rhannu'r ymdrech arolygu rhwng dwy ardal chwilio eang a daearyddol wahanol (h.y. Sir Benfro ac Ynys Môn). Fodd bynnag, ystyrir y byddai cwmpasu dwy ardal yn cynyddu gwerth cyffredinol yr ymarfer casglu data ac yn cael ei ystyried yn fwy cadarnhaol gan randdeiliaid.



Byddai gwaith arolygu oddi ar Benmaen Dewi yn cwmpasu ardaloedd mawr o adnoddau addas ar gyfer ffrydiau llanw a dyframaeth, fel y dangosir trwy leoliad y SRAau drafft yn WP1. Mae data mapio cynefinoedd yn dangos y bydd ardal yr arolwg yn debygol o orgyffwrdd â nodwedd riff ar hyd yr ymylon deheuol a gorllewinol; fodd bynnag, mae data siart y morlys yn awgrymu bod ehangder eang o nodweddion gwaddod cymysg dros lawer o ardal yr arolwg, ac unffurfiaeth bathymetrig gwely'r môr.

Er bod yr arolwg amlbelydr arfaethedig o fewn ardal chwilio Gorllewin Ynys Môn yn gorgyffwrdd ag adnoddau ffrydiau llanw da, nid oes unrhyw orgyffwrdd ag ardaloedd adnoddau dyframaethu, fel y'i diffinnir gan leoliad yr SRA dyframaethu drafft. Fodd bynnag, cynigir y dylid cynnal gwaith dilysu daear DDV hefyd o fewn ardal sydd eisoes yn destun arolwg amlbelydr ac sy'n gorgyffwrdd â'r SRA dyframaethu drafft mawr i'r gorllewin o Ynys Môn, sydd gerllaw'r gweithgaredd amlbelydr arfaethedig. Mae gwely'r môr i'r gorllewin o Ynys Môn yn debygol o gwmpasu ardaloedd o waddod bras, a riff caregog a chreigiog.

3. Arolwg Methodoleg fanwl

Mae'r adran hon yn rhoi amlinelliad o fethodoleg yr arolwg a'r cynllun arfaethedig ar gyfer casglu data gan ddefnyddio amlbelydr a DDV. Mae ystyried y fethodoleg fanwl yn caniatáu rhagfynegiad o'r casglu data y gellir ei gyflawni ym mhob maes chwilio eang. Yn dilyn hyn, darperir cyfres o opsiynau (gweler Opsiynau'r Arolwg Terfynol).

Arolwg Bathymetreg ac Ôl-wasgariad

Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud o FPV Morven. Mae'r llong hon yn gallu gweithio 24 awr ac mae'n barod i'w defnyddio bob amser gyda system bathymetreg aml-ddeuol Kongsberg 2040C, wedi'i rhyngwynebu â system llywio anadweithiol Applanix POS MV Oceanmaster.

Bydd y data amlbelydr ac ôl-wasgariad yn cael ei gaffael gyda chywirdeb lleoli amser real o fewn 0.2 m. Fodd bynnag, bydd cywirdeb lleoli yn gwella'n sylweddol yn ystod ôl-brosesu.

Ôl-wasgariad

Yn ystod y gwaith casglu, er mwyn sicrhau ôl-wasgariad o'r ansawdd uchaf, bydd hyd y pwls amlbelydr yn cael ei gadw'n gyson trwy gydol yr arolwg. Mae profion wedi cadarnhau bod newid hyd y pwls wrth gasglu data yn cymell arteffactau yn y set ddata ôl-wasgariad. Bydd y data'n cael ei fewnforio i Caris HIPS a SIPS 11.1. Defnyddir y ffeil llywio SBET wedi'i phrosesu i wella lleoliad llorweddol y set ddata ôl-wasgariad. Bydd brithwaith ôl-wasgariadau yn cael ei greu y gellir ei allforio wedyn ar gyfer dehongli dosbarthiad gwely'r môr.

Bathymetreg

Bydd Caris HIPS a SIPS 11.1 hefyd yn cael eu defnyddio i brosesu'r data bathymetreg amlbelydr. Bydd y ffeiliau bathymetreg amrwd yn cael eu llwytho i'r feddalwedd lle bydd y ffeil llywio SBET wedi'i phrosesu yn cael ei defnyddio gan leihau'r data i'r datwm gofynnol.

Bydd y ffeil SVP berthnasol yn cael ei defnyddio i gywiro'r data ar gyfer effeithiau cyflymder sain sy'n newid trwy'r golofn ddŵr. Bydd hidlwyr yn cael eu defnyddio i gael gwared ar unrhyw seiniau sydd y tu allan i lwfans IHO Gorchymyn 1a, cyn i lanhau pellach gael ei wneud â llaw i gyflawni set ddata derfynol o ansawdd uchel.

Cynllun

Bydd llong yr arolwg yn gweithredu 24 awr er mwyn casglu cymaint o ddata â phosibl o fewn y gyllideb sydd ar gael. Mae cwmpasiad amlbelydr yn dibynnu ar gyflymder y cwch a dyfnder y dŵr. Gyda mwy o ddyfnder dŵr, mae lled yr ystod amlbelydr yn cynyddu.



Fel amcangyfrif optimistaidd o dan amodau tywydd delfrydol, mae profiad yn dangos y gellir cyflawni 140 km o linellau arolwg bob diwrnod 24 awr.

Gellir brasamcanu'r lled ystod ambelydr disgwylidig trwy:

$$\text{Lled Ystod} = 3 \times \text{Dyfnnder dŵr}$$

Felly, mewn dyfnnder dŵr o 40m ar gyfartaledd, gallwn ddisgwyl ystod ambelydr 120 m o led ar hyd pob llinell arolwg.

Gan ddefnyddio'r ffigurau hyn, byddai 140km o linellau arolwg 120m o led yn sicrhau cyfanswm ystod ambelydr o 16.8km² fesul diwrnod 24 awr.

Ym mhob un o'r ddwy ardal chwilio eang, rhoddwyd blaenoriaeth i ardaloedd ambelydr arfaethedig. Ym mhob safle, Ardal Flaenoriaeth 1 sydd â'r ardal gymharol fwyaf, dyma'r glannau agosaf ac mae ganddo'r gorgyffwrdd mwyaf â'r adnodd ffrydiau llanw a nodwyd (gweler Ffigur 1 a 2).

Ar ôl cyrraedd, bydd y llong arolwg ambelydr yn dechrau gweithredu ym Maes Blaenoriaeth 1, ac ar ôl cwblhau hynny yn symud i Ardal Flaenoriaeth 2. Mae'r tabl isod yn darparu cwmpas arwynebaidd (km²) pob Maes Blaenoriaeth ym mhob safle chwilio eang ynghyd ag amcangyfrif o'r nifer o'r diwrnodau arolygu sy'n ofynnol i'w cwblhau.

Lleoliad	Blaenoriaeth	Arwynebedd (km ²)	Amcangyfrif o'r diwrnod arolygu
Sir Benfro	Ardal 1	40	2.5
Sir Benfro	Ardal 2	16.5	1
Sir Benfro	Ardal 3	19	1.25
Sir Benfro	Ardal 4	9	0.5
Sir Benfro	Ardal 5	10.5	0.75
Gorllewin Ynys Môn	Ardal 1	41	2.5
Gorllewin Ynys Môn	Ardal 2	15	1
Gorllewin Ynys Môn	Ardal 3	18.5	1.25
Gorllewin Ynys Môn	Ardal 4	9.5	0.75

Yn ystod yr arolwg, bydd maint a lleoliad y data ambelydr a gasglwyd yn weladwy. Bydd hyn yn golygu y bydd gorgyffwrdd â'r data presennol yn cael ei gadw i'r lleiafswm, gan hefyd leihau'r tebygolrwydd o fylchau rhwng data'r arolwg a'r hyn a gasglwyd eisoes.

Bydd rhywfaint o brosesu data yn digwydd yn ystod yr arolwg. Bydd hyn yn caniatáu i addasiadau gael eu gwneud i gynllun yr arolwg a hefyd hysbysu'r lleoliadau ar gyfer dilysu ar y ddaear gyda DDV.

DDV

Nid oes llong wedi'i chomisiynu ar gyfer y gwaith eto; fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'r llong yn hwylio o Abergwaun neu Gaerbybi yn Sir Benfro ac Ynys Môn yn y drefn honno.

Cynllun

Bydd y gwaith hwn yn digwydd ar ôl cwblhau'r arolwg ambelydr. Yn wahanol i'r gwaith ambelydr, bydd yr arolwg DDV wedi'i gyfyngu'n fawr gan amodau'r llanw. Er mwyn casglu data i'r eithaf, cynhelir yr arolwg o amgylch llanw isel. Dylai hyn ganiatáu ffenestr weithredol o 1.5 awr, neu fwy, y naill ochr i'r llanw isel.

Fel amcangyfrif ceidwadol rhoddir lwfans ar gyfer ffenestr 3 awr ddwywaith y dydd, gan ddarparu uchafswm o 6 awr o amser arolygu mewn unrhyw ddiwrnod penodol.

Amcan allweddol yr arolwg DDV fydd dilysu'r data amlbelydr yn Ardal Blaenoriaeth 1, gyda lleoliadau DDV yn cael eu cyfarwyddo gan y gofynion amlbelydr; gan alluogi mapiau cynefinoedd o ansawdd da gyda hyder uchel. Fodd bynnag, dylid cydnabod na fydd yn bosibl dilysu rhai ardaloedd a gwmpasir gan yr amlbelydr oherwydd cyfyngiadau amrywiol ar y gweithgaredd hwn (e.e. natur y llanw, pellter i orsafoedd arolygu ac ati.) Yn ogystal, mae sawl Ardal o Ddiddordeb wedi'u nodi yn Sir Benfro a Gorllewin Ynys Môn. Bydd y rhain yn ganolbwynt eilaidd i'r gweithgaredd DDV (gweler isod am fanylion pellach ar bob un). Mae rhai o'r ardaloedd hyn yn gorgyffwrdd ag ardaloedd sydd eisoes wedi cael arolwg amlbelydr ond nad ydynt naill ai heb fod wedi'u dilysu neu byddai dilysu pellach mewn ardal cymharol debyg yn rhoi mwy o hyder mewn nodwedd bosibl o ddiddordeb (e.e. presenoldeb riff, math o riff, cynefinoedd ynni uchel).

Unwaith y bydd yn y man priodol, defnyddir y DDV am oddeutu 10 munud, gan ddarparu tua 5 munud ar y gwaelod. Bydd dewis manau priodol yn dibynnu ar anghenion dilysu ond byddant hefyd yn cael eu llywio gan y lluniau a welwyd. Felly, os cofnodir nodwedd o ddiddordeb (e.e. nodweddion riff; cynefin Adran 7) yna bydd yr arolwg DDV yn cael ei addasu i roi syniad o faint y nodwedd.


O dan yr amodau gorau posibl a gan ystyried amseroedd teithio rhwng manau DDV, rhagwelir y gellir arolygu hyd at 24 o fannau DDV bob dydd yn Sir Benfro ac, oherwydd bod ychydig mwy o ddyfnder, 20 o fannau DDV yn Ynys Môn.

Sir Benfro


Rhagwelir y bydd llong yr arolwg yn teithio o Abergwaun bob dydd. Bydd teithio i/o safle'r arolwg eang i Abergwaun yn cymryd oddeutu 2 awr. O ganlyniad, mae'n annhebygol y byddai modd cyflawni DDV yn Ardaloedd Blaenoriaeth 4 a 5.

Nodir pedair Ardal o Ddiddordeb yn Ffigur 2. O'r gogledd i'r de:

- 1) Mae'r ardal hon yn rhedeg ar hyd sylfaen nodwedd banc tywod mawr.
- 2) Mae hon wedi'i lleoli o fewn ardal o adnodd ffrydiau llanw uchel @ 1.5m / s ac mae'n gorgyffwrdd â SRA ffrydiau llanw drafft ac SRA dyframaethu drafft.
- 3) Mae'r ardal hon yn gymharol agos i'r lan, yn gorgyffwrdd â SRA ffrydiau llanw drafft a SRA dyframaethu drafft. Mae pysgota cimychiaid a chregyn bylchog mawr yn digwydd yn yr ardal, gan awgrymu creigwely riff a brigiadau creigiog.
- 4) Yn gorgyffwrdd â data amlbelydr Seacams, credir y bydd yr ardal hon yn gorgyffwrdd â pharhad nodwedd riff.



Ffigur 2: Ardal chwilio eang arfaethedig ar gyfer Sir Benfro



Ffigur 3: Ardal chwilio eng arfaethedig ar gyfer Gorllewin Ynys Môn

Gorllewin Môn

Rhagwelir y bydd y llong yn teithio o farina Caergybi bob dydd. Bydd teithio i / o safle'r arolwg yn cymryd oddeutu 1.5 - 2 awr. O ganlyniad, bydd gwaith DDV o fewn Ardal Blaenoriaeth 3 yn gyfyngedig iawn, ac ni chynigir unrhyw DDV yn Ardal Blaenoriaeth 4.

Nodir pedair Ardal o Ddiddordeb yn Ffigur 3. O'r gogledd i'r de:

- 1) Mae'r ardal hon yn gorgyffwrdd ag ardaloedd o ffrydiau llanw uchel iawn.
- 2) Mae'r ardal hon o fewn ffiniau ACA ac AGA ac wedi'i lleoli mewn ardal lle mae mapio rhagfynegol wedi asesu bod riff yn bosibl ond gyda hyder isel. Felly, byddai cadarnhau presenoldeb/absenoldeb riff yn ddefnyddiol.
- 3) Er bod hon y tu allan i ardal yr arolwg amlyblydr arfaethedig ac o fewn ardal sydd â data amlyblydr yn barod, rhoddir ystyriaeth i wneud gwaith arolygu DDV i gynyddu hyder ym mhresenoldeb riff a ragwelir. Mae'r ardal hon hefyd yn gorgyffwrdd â SRA dyframaethu drafft.
- 4) Mae'r ardal hon yn gorgyffwrdd â SRA ffrydiau llanw drafft a SRA dyframaethu drafft. Mae wedi'i lleoli mewn AGA forol mewn ardal lle mae mapio rhagfynegol wedi asesu bod riff yn bosibl ond gyda hyder isel. Felly, byddai cadarnhau presenoldeb/absenoldeb riff yn ddefnyddiol.

4. Dewisiadau Arolygu Terfynol

Mae'r adran hon yn cydnabod y fethodoleg a'r cynllun manwl, gan ystyried y data y byddai modd ei gasglu'n rhesymol o dan y tri opsiwn canlynol:

- Casglu data i'r gogledd a'r gogledd-orllewin o Benmaen Dewi (Sir Benfro)
- Casglu data i'r gorllewin o Ynys Môn (Gorllewin Ynys Môn)
- Casglu data i'r gogledd a'r gogledd-orllewin o Benmaen Dewi ac i'r gorllewin o Ynys Môn (Sir Benfro a Gorllewin Ynys Môn)

Opsiwn 1 – Sir Benfro

Opsiwn 2 – Gogledd Ynys Môn

O dan yr amodau gorau posibl, rhagwelir y gallai amlyblydr arolygu pob Ardal Blaenoriaeth (1-4), gan ddilysu Ardaloedd Blaenoriaeth 1, 2 a rhan o 3. Byddai modd gweithredu DDV hefyd yn yr Ardaloedd Diddordeb.

Opsiwn 3 – Sir Benfro a Gogledd Ynys Môn



O ganiatáu hanner diwrnod o deithio rhwng y meysydd chwilio eang, rhagwelir o dan yr amodau gorau posibl y gallai amlyblydr arolygu Ardal Blaenoriaeth 1 yn gyfan ymhob ardal chwilio (~40km² yn Sir Benfro; ~41km² yn Ynys Môn). Byddai modd hefyd dilysu Ardal Blaenoriaeth 1 ymhob ardal arolygu eang. Rhagwelir y byddai modd gweithredu DDV hefyd yn yr Ardaloedd Diddordeb o fewn pob ardal chwilio eang.



5. Cyfeiriadau

ABPmer, (2019). Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr, Pecyn Gwaith 1, Adroddiad ABPmer Rhif R.3065. Adroddiad a gynhyrchwyd gan ABPmer i Lywodraeth Cymru, Chwefror 2019.

B Templed Pecyn Tystiolaeth (Drafft)

Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr (SMMNR)																																																										
Sector: Ffrwd Llanw	Lleoliad: Sir Benfro	Pecyn Tystiolaeth (Rhif X)																																																								
<p>Pwrpas</p> <p>Fel rhan o'r prosiect SMMNR, cynhyrchwyd y pecyn tystiolaeth hwn i gefnogi diogelu'r amgylchedd morol a defnydd cynaliadwy o adnoddau morol Cymru. Yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynlluniwyd y pecyn hwn i gynorthwyo rheoleiddwyr a datblygwyr i ddeall y cyfyngiadau a'r cyfleoedd lefel uchel i ddatblygu ffrwd llanw. Mae'r pecyn hwn (rhif X) yn cwmpasu ardal ddaearyddol eang sy'n cwmpasu adnodd llif llanw o amgylch Ynys Dewi a Phenmaen Dewi, Sir Benfro (gweler Ffigurau X ac Y)</p>																																																										
<p>Trosolwg o'r Adnodd a Nodwyd yng Nghymru: Ffrwd Llanw</p>																																																										
 <p>This map shows the geographical context of the project within Wales. The project area is highlighted in the southwest, near the coast of Pembrokeshire. A legend below the map provides details on the data source and projection.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Date</th> <th>By</th> <th>QA</th> <th>Mean Spring Peak Flow (m/s)</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Apr 19</td> <td>Fl W</td> <td>FR</td> <td>0.00 - 0.25</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>0.26 - 0.50</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>0.51 - 0.75</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>0.76 - 1.00</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>1.01 - 1.25</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>1.26 - 1.50</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>1.51 - 1.75</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>1.76 - 2.00</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>2.01 - 2.25</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>2.26 - 2.50</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>2.51 - 2.75</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>2.76 - 3.00</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td>3.01 - 4.50</td> </tr> </tbody> </table> <p>ABP mer © ABPmer. All rights reserved, 2019. Flow data taken from the Atlas of UK Marine Renewable Energy Resources, 2018. Reproduced from http://www.renewableatlas.com/. © Crown Copyright. All rights reserved 2018. Revision: P01-01-01-01</p>		Date	By	QA	Mean Spring Peak Flow (m/s)	Apr 19	Fl W	FR	0.00 - 0.25				0.26 - 0.50				0.51 - 0.75				0.76 - 1.00				1.01 - 1.25				1.26 - 1.50				1.51 - 1.75				1.76 - 2.00				2.01 - 2.25				2.26 - 2.50				2.51 - 2.75				2.76 - 3.00				3.01 - 4.50	 <p>This zoomed-in map shows the flow density contours for the project area. The contours indicate varying levels of flow density, with higher densities (represented by darker colors like purple and magenta) concentrated in the central part of the area, and lower densities (represented by lighter blues) towards the edges.</p>
Date	By	QA	Mean Spring Peak Flow (m/s)																																																							
Apr 19	Fl W	FR	0.00 - 0.25																																																							
			0.26 - 0.50																																																							
			0.51 - 0.75																																																							
			0.76 - 1.00																																																							
			1.01 - 1.25																																																							
			1.26 - 1.50																																																							
			1.51 - 1.75																																																							
			1.76 - 2.00																																																							
			2.01 - 2.25																																																							
			2.26 - 2.50																																																							
			2.51 - 2.75																																																							
			2.76 - 3.00																																																							
			3.01 - 4.50																																																							
<p>Ffigur X. Trosolwg</p>	<p>Ffigur Y. Mewnosodiad <i>(byddai mewnosodiadau wedi'u rhifo yn caniatáu i ddefnyddwyr weld pa ardal sy'n cyfateb i'r pecyn)</i></p>																																																									

Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr (SMMNR)		
Sector: Ffrwd Llanw	Lleoliad: Sir Benfro	Pecyn Tystiolaeth (Rhif X)
Dull SMMNR (Siart Llif) –		Siart Llif – pecyn tystiolaeth
<p>The flowchart illustrates the SMMNR process. It begins with the 'Policy' (Welsh National Marine Plan) which identifies 'Identified suitable resource'. This leads to two parallel activities: 'Spatial Data Collation & Mapping' and 'Evidence and Literature Review', which constitute 'Stage 1 of SMMNR'. These activities lead to 'Recommendations and data gaps'. This then leads to 'Data collection' and 'Constraints analysis and mapping', which constitute 'Stage 2 of SMMNR'. Both 'Data collection' and 'Constraints analysis and mapping' lead to 'Evidence Packages'. A vertical bar on the left indicates 'Stakeholder engagement' throughout the process.</p>		
Yn cynnwys testun cryno yn manylu ar gamau'r broses		
Polisi Cynllunio a Deddfwriaeth		
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cenedlaethol: <ul style="list-style-type: none"> - Datganiadau Polisi Cenedlaethol - EN-1 ax EN-3 - Polisi Morol y DU ▪ Cymreig: <ul style="list-style-type: none"> - Polisi morol Cymru - CMCC – ymwneud â pholisïau - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Polisi Adnoddau Naturiol - Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 9 (Tachwedd 2016) - TAN 5 (Cadwraeth Natur a Chynllunio) - TAN 14 (Cynllunio Arfordirol) - TAN 18 (Ynni Adnewyddadwy) ▪ Rhanbarthol: <ul style="list-style-type: none"> - Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (Medi 2010) (gweler ardal PM4 i orgyffwrdd â'r ardal adnoddau a nodwyd ar gyfer ffrwd llanw) – Polisi 33 – Ynni Adnewyddadwy 		

Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr (SMMNR)

Sector: Ffrwd Llanw

Lleoliad: Sir Benfro

Pecyn Tystiolaeth (Rhif X)

Canllawiau

- Cynllunio Morol:
 - Porth Cynllunio Morol Cymru
- Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2007 ("y Rheoliadau AEA").
- Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) 2017
- Trwyddedu Morol -MCAA 2009 (marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk)
- Canllawiau ar asesu ynni adnewyddadwy/agregau/dyframaethu alltraeth:
 - GN006 Setiau data ecoleg forol ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau morol
 - GN013 - Cwmpasu Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer datblygiadau morol
 - GN030 - Canllawiau asesu ar gyfer datblygiadau a gweithgareddau morol
- Canllawiau sensitifrwydd ceblau - TCE/CNC

Cydsynio


- Gofynion cydsynio a chaniatáu:
 - MCAA – trwyddedau morol (a weinyddir gan CNC-PS) (dolen i
 - Caniatâd cynllunio (LPA)
 - S36 Deddf Trydan (Llywodraeth Cymru – Arolygiaeth gynllunio)
 - Prydles Ystâd y Goron
 - Diogelwch Mordwyo a Chymhorthion Llywio
- Cefnogi ceisiadau:
 - EIA
 - HRA
 - WFD
 - Datganiad Dylunio a Mynediad (DAS)

Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr (SMMNR)

Sector: Ffrwd Llanw

Lleoliad: Sir Benfro

Pecyn Tystiolaeth (Rhif X)



Ffynhonnell: <http://www.marineenergywales.co.uk/developers/consenting-guidance>

Adnodd Dynodedig

- Cyfeiriad at Ffigur X.
- Dolenni i waith nodi adnoddau
- Dolenni i waith coladu data – geo-gronfa ddata (wedi'i diweddarau'n rheolaidd)
- Dolen i Borth Cynllunio Morol Cymru - <http://lle.gov.wales/apps/marineportal/>
- Setiau data allweddol ar gyfer adnoddau:
 - Llif brig cymedrig y gwanwyn - <https://www.renewables-atlas.info/>

Cyfyngiadau Gofodol a Mapio

Methodoleg dadansoddi cyfyngiadau (dolen):


- Cafeat – cyfyngiadau data, gofyniad i gasglu data sylfaenol, arwydd eang o risg cydsynio yn unig (un rhan o'r broses ehangach).

Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr (SMMNR)

Sector: Ffrwd Llanw

Lleoliad: Sir Benfro

Pecyn Tystiolaeth (Rhif X)



Ffigur X. Cyfyngiadau gofodol ar gyfer ffrydiau llanw

Cyfyngiadau Gofodol a Mapio – Setiau data

Setiau data allweddol:

- Ymarfer coladu data
- Setiau data allweddol a ddefnyddir ar gyfer mapio – ddim yn gynhwysfawr:
 - Safleoedd dynodedig
 - Nodweddion Adran 7
 - Cynefinoedd Atodiad 1 (riffiau)
 - Meithrinfa/silio pysgod
 - Mapiau dwysedd adar (OBIS)
- Dolen i setiau data (porth Lle neu fel arall)
- Cyfyngiadau setiau data

Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol y Môr (SMMNR)

Sector: Ffrwd Llanw

Lleoliad: Sir Benfro

Pecyn Tystiolaeth (Rhif X)

Cyfyngiadau Gofodol a Mapio – Casgliadau

(yn gysylltiedig ag ardal adnoddau daearyddol/dynodedig berthnasol)

- Sylwadau cryno ynghylch dewis safle:
 - Cyfyngiadau cyffredinol:
 - Rhestr o ddynodiadau sy'n gorgyffwrdd
 - Nodweddion sensitif allweddol
 - Argymhellion ynghylch dewis safle (yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol)
 - Cyfyngiadau dadansoddiad cyfyngiadau
 - Cysylltiadau â phrosesau asesu ehangach ar gyfer datblygu cynllun (SEA, HRA ac ati)
 - Risgiau cydsynio cymharol ar draws yr ardal adnoddau a ddewiswyd
 - Ystyried ardal ehangach
 - Risgiau cydsynio cymharol i feysydd adnoddau cysylltiedig eraill
 - Cyfyngiadau ehangach gan gynnwys datblygiad arall
 - Dolenni i geisiadau perthnasol blaenorol e.e. datblygiadau ffrydiau llanw o amgylch Ynys Dewi

Dolenni Ehangach

- Cyfnewid data morol TCE <http://www.marinedataexchange.co.uk/>
- Gwefan TCE website
- Morlun a sensitifrwydd gweledol i ffermydd gwynt ar y môr
- ORJIP (<http://www.orjip.org.uk/>);
- Ynni Cefnfor ORJIP Ocean Energy. Offer AEA [ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.orjip.org.uk/eia-tools>
- EFFAITH <http://www.marine-impact.co.uk/index.asp>
- Data o barthau arddangos (<http://www.marineenergywales.co.uk/marine-energy-in-wales/demonstration-zones> ; <http://www.morlaisenergy.com> ; <https://www.wavehub.co.uk/pembrokeshire-wave-zone>)
- MEECE (<http://www.marineenergywales.co.uk/marine-energy-in-wales/projects/pembroke-dock-marine>)

Contact Us

ABPmer

Quayside Suite,

Medina Chambers

Town Quay, Southampton

SO14 2AQ

T +44 (0) 23 8071 1840

F +44 (0) 23 8071 1841

E enquiries@abpmer.co.uk

www.abpmer.co.uk

